

Telerau ac Amodau Safonol

Mae'r telerau ac amodau canlynol yn berthnasol i'r holl archebion am wasanaethau (fel y'u diffinnir isod) gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y telerau ac amodau hyn, cysylltwch â'n Swyddog Gweinyddol dros y ffôn: 01492 575564, neu anfonwch e-bost at first.aidH&S@conwy.gov.uk

Nid yw'r telerau ac amodau hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.

Diffiniadau

- a. Mae "Mynychwr" yn golygu'r sawl sydd wedi archebu lle ar gwrs.
- b. Mae "Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy" yn golygu Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy, adain o Wasanaethau Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd a'u pencadlys yn y DU yn Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy, LL32 8DU
- c. Mae "Contract" yn golygu'r telerau ac amodau hyn, y ffurflen gais y bydd y Cwsmer yn ei chwblhau a'r cadarnhad o archeb bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn ei roi i'r Cwsmer.
- d. Mae "Cwrs" yn golygu cwrs cymorth cyntaf, cwrs lles meddyliol neu unrhyw gwrs tebyg sy'n cael ei drefnu a'i redeg gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy.
- e. Mae "Cwsmer" yn golygu prynwr y Gwasanaethau, sef naill ai Sefydliad neu Unigolyn, a lle bydd y cyd-destun yn gofyn am hynny bydd "Cwsmer" hefyd yn cynnwys y Mynychwyr.
- f. Mae "Deddfwriaeth Diogelu Data" yn golygu'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol i brosesu data personol a phreifatrwydd yn cynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (OS 2003 Rhif 2426) ac unrhyw offeryn statudol, gorchymyn, rheol neu reoliad wneir yn unol â hwy.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



g. Mae “Cwrs Grŵp” yn golygu cwrs a drefnir gan Sefydliad er budd ei staff neu aelodau eraill o’r Sefydliad, ac a gynhelir mewn lleoliad a ddewisir gan y Sefydliad.

h. Mae “Unigolyn” yn golygu’r sawl sy’n mynychu cwrs wedi’i drefnu.

i. Mae “Sefydliad” yn golygu cwsmer sydd yn gwmni, yn elusen, yn sefydliad neu’n grŵp arall, yn cynnwys grŵp teuluol, sy’n archebu Cwrs Grŵp neu’n archebu llefydd i unigolion ar Gwrs Wedi’i Drefnu.

j. Mae “Cwrs wedi’i Drefnu” yn golygu Cwrs a gynhelir yn eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu eiddo a ddewiswyd gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy y gall aelodau o’r cyhoedd archebu lle arno ac y gall Sefydliadau archebu un neu fwy o lefydd arno ar gyfer eu haelodau neu eu staff.

k. Mae “Gwasanaethau” yn golygu pob Cwrs, cynnyrch cymorth cyntaf ac unrhyw gynnyrch neu wasanaethau perthnasol eraill a gyflenwir gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy.

l. Mae “Lleoliad” yn golygu lleoliad sy’n cael ei hurio gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy ar ran y Cwsmer er mwyn cynnal Cwrs Grŵp.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



1. Taliadau a TAW

- a. Mae'n rhaid i unigolyn sy'n archebu lle ar Gwrs Wedi'i Drefnu dalu pan fydd yn gwneud yr archeb.
- b. Bydd Sefydliad sy'n archebu Cwrs Grŵp neu sy'n archebu lle i unigolyn ar Gwrs Wedi'i Drefnu yn cael anfoneb y bydd yn rhaid ei thalu'n llawn cyn dyddiad dechrau'r Cwrs.
- c. Mae Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn cadw'r hawl i ddal tystysgrifau'n ôl hyd nes y bydd y taliad llawn wedi clirio. Mae Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy hefyd yn cadw'r hawl i beidio â gadael i unigolyn fynychu'r cwrs ac unrhyw gyrsiau eraill yn maent wedi'u harchebu, yn ogystal â phheidio â chyflwyno unrhyw dystysgrifau, hyd nes y bydd yr holl daliadau sy'n dyledus wedi clirio.
- d. Bydd y Cwsmer yn talu TAW ar yr holl ffioedd ar y gyfradd sydd wedi'i phennu ar y y pryd.

2. Canslo, Aildrefnu ac Anfon Rhywun yn Lle'r Sawl a Enwyd – Cyffredinol

- a. Gall Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy ganslo neu aildrefnu cwrs ar unrhyw adeg.
- b. Os bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn canslo Cwrs bydd yn rhoi gwybod i'r Cwsmer cyn gynted â phosib ac yn rhoi'r dewis iddo o fynychu'r Cwrs nesaf sydd ar gael, yn amodol ar argaeledd lle ar y cwrs hwnnw. Ni fydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am aildrefnu unrhyw gyrsiau a gafodd eu canslo gyda'r unigolion hyn ac ni all ddarparu lle awtomatig ar y cwrs nesaf sydd ar gael.
- c. Nid yw Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros dystysgrifau sy'n dirwyn i ben oherwydd bod Cwrs wedi'i ganslo.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



d. Gellir canslo cwrs, gwneud ceisiadau i aildrefnu cwrs neu geisiadau i anfon rhywun arall yn lle'r sawl y trefnwyd lle iddynt yn wreiddiol ar Gwrs Wedi'i Drefnu drwy ffonio 01492 575564 neu anfon e-bost at first.aidH&S@Conwy.gov.uk . Gellir hefyd canslo drwy ddefnyddio'r Ffurflen Ganslo sydd i'w gweld ar ddiwedd y Telerau ac Amodau hyn. Mae hyn yn berthnasol i Gyrsiau Wedi'u Trefnu a Chyrsiau Grŵp.

3. Sefydliad yn Canslo Cwrs Grŵp neu lefydd ar Gwrs Wedi'i Drefnu.

- a. Os bydd Sefydliad yn canslo Cwrs Grŵp ac yn rhoi llai na 10 diwrnod gwaith o rybudd cyn dyddiad cychwyn y Cwrs Grŵp hwnnw, bydd y Sefydliad yn talu'r ffi lawn am y Cwrs Grŵp a ganslwyd.
- b. Os bydd Sefydliad yn canslo Cwrs Grŵp drwy roi mwy na 10 diwrnod o rybudd o ganslo cyn dyddiad cychwyn y Cwrs Grŵp, bydd y Sefydliad yn ddarostyngedig i delerau ac amodau'r lleoliad yr oedd y cwrs i'w gynnal ynddo.
- c. Os bydd Sefydliad yn canslo llefydd a archebwyd i unigolion ar Gwrs Wedi'i Drefnu gan roi llai na 10 diwrnod gwaith o rybudd cyn dyddiad cychwyn y Cwrs hwnnw, bydd y Sefydliad yn talu'r ffi lawn am y cwrs.

4. Unigolion yn Canslo

- a. Gall Unigolyn ganslo lle ar Gwrs Wedi'i Drefnu o fewn 10 diwrnod gwaith o archebu'r lle, yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod pan archebwyd y lle ar y Cwrs Wedi'i Drefnu.
- b. Gall Unigolyn ganslo lle ar Gwrs Wedi'i Drefnu ar unrhyw adeg a hyd at 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad dechrau'r Cwrs.
- c. Os bydd Unigolyn yn canslo lle a archebwyd o dan is-gymal 5(a) neu is-gymal 5(b) uchod, bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn ad-dalu'r ffi.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



d. Os bydd Unigolyn yn canslo lle a archebwyd ar Gwrs Wedi'i Drefnu fwy nag 14 diwrnod calendr ar ôl archebu'r lle a bod y Cwrs Wedi'i Drefnu o fewn 14 diwrnod o'r diwrnod pan gafodd y cwrs ei ganslo, ni fydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn ad-dalu'r ffi.

5. Trosglwyddo Unigolion ar Gyrsiau Wedi'u Trefnu.

a. Os bydd Sefydliad neu Unigolyn yn archebu lle i Fynychwyr ar Gwrs Wedi'i Drefnu, gallant drosglwyddo un neu fwy o Fynychwyr o un Cwrs Wedi'i Drefnu i Gwrs Wedi'i Drefnu arall unwaith heb orfod talu am wneud hynny, ar yr amod bod Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn derbyn y cais i drosglwyddo o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad cychwyn y Cwrs Wedi'i Drefnu a archebwyd gyntaf.

b. Os bydd Sefydliad neu Unigolyn yn gwneud cais am gael trosglwyddo Mynychwyr o un Cwrs Wedi'i Drefnu i Gwrs Wedi'i Drefnu arall lai na 10 diwrnod gwaith cyn dechrau'r Cwrs Wedi Drefnu a archebwyd gyntaf, bydd yn rhaid i'r Sefydliad neu'r Unigolyn dalu am y ddau gwrs oni bai bod y sawl a oedd i fod i fynychu'n sâl a bod Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn derbyn ffurflen feddygol sy'n tystio i hynny.

6. Manylion pobl sy'n mynychu Cyrsiau Wedi'u Trefnu

Mae'n rhaid i Sefydliad sydd wedi archebu Cwrs Wedi'i Drefnu roi manylion yr unigolion a fydd yn mynychu'r Cwrs Wedi'i Drefnu hwnnw o leiaf 48 awr cyn dechrau'r Cwrs Wedi'i Drefnu.

7. Aildrefnu Cwrs Grŵp

a. Gall Sefydliad aildrefnu Cwrs Grŵp heb dalu ar yr amod bod Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy'n derbyn y cais o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad cychwyn y Cwrs Grŵp a archebwyd gyntaf.

b. Os derbynnir cais i aildrefnu Cwrs Grŵp lai na 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad dechrau'r Cwrs hwnnw codir ar y Sefydliad dâl o 50% o ffi'r Cwrs cyntaf a archebwyd.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



c. Os bydd Sefydliad yn aildrefnu Cwrs Grŵp o dan is-gymal 8(a) neu (8 b) uchod, bydd y Sefydliad yn ddarostyngedig i delerau ac amodau'r lleoliad lle'r oedd y cwrs i gael ei gynnal.

8. Amseru'r Cwrs a Chadarnhad o Archebu

a. Mae'n hanfodol cadw amser da drwy gydol y cwrs.

b. Bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn anfon e-bost yn cadarnhau'r archeb at y sawl a wnaeth yr archeb a fydd yn cynnwys gwybodaeth am amser dechrau'r cwrs.

c. Os nad yw'r sawl a archebodd yn derbyn cadarnhad, eu cyfrifoldeb nhw fydd cysylltu â Thîm Hyfforddiant Ffit Conwy naill ai dros y ffôn: 01492 575564 neu drwy e-bost: first.aidH&S@conwy.gov.uk i ofyn bod y cadarnhad o archeb yn cael ei anfon eto.

d. Os nad yw Mynychwr yn mynychu Cwrs oherwydd na wnaeth y sawl a archebodd dderbyn cadarnhad o'r archeb, bydd yn rhaid i'r Cwsmer dalu cost lawn y cwrs o hyd.

e. Cyfrifoldeb y sawl sy'n archebu fydd sicrhau bod y Mynychwr yn cael gwybod am y cyfarwyddiadau hyn ynglŷn â mynychu, a holl ofynion eraill y Cwrs, cyn iddynt fynd ar y cwrs.

f. Bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn postio tystysgrifau cymorth cyntaf ac anfonebau i gyfeiriadau yn y DU. Bydd tystysgrifau'n cael eu hanfon ar e-bost at bawb a fynychodd oni bai y ceir cais i'r gwrthwyneb. Os bydd angen tystysgrifau wedi'u hargraffu efallai y bydd gofyn i'r Cwsmer dalu ffi ychwanegol.

9. Presenoldeb

a. Mae'n rhaid i Fynychwyr fynychu'r cwrs a chwblhau pob elfen ohono i gael tystysgrif - os yw tystysgrif yn berthnasol.

b. Codir cost lawn y cwrs am Fynychwyr sy'n cyrraedd yn hwyr neu sy'n absennol am ran o'r cwrs neu'r cwrs cyfan. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os gwrthodir mynediad i'r Mynychwr oherwydd ei fod o neu hi yn hwyr yn cyrraedd.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



10. Diwallu anghenion Mynychwyr

- a. Mae gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy Bolisi Cyfleoedd Cyfartal
- b. I alluogi Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy i sicrhau bod yr holl Fynychwyr yn cael eu trin yn deg a'u holl anghenion yn cael eu diwallu'n llawn, mae'n rhaid i Gwsmeriaid ddweud wrth Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy ymlaen llaw am unrhyw drefniadau arbennig sydd eu hangen ar fynychwyr er mwyn eu galluogi i gymryd rhan llawn yn yr hyfforddiant.
- c. Nid yw Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn darparu unrhyw offer arbenigol a/neu wasanaeth arwyddwyr neu gyfieithwyr ond gall y Cwsmer wneud y fath drefniadau ar eu traul eu hunain.

11. Oed, ffitrwydd ac ymagwedd y Mynychwr

- a. Mae bod yn swyddog cymorth cyntaf yn gallu bod yn waith corfforol drwm. Mae'n rhaid i bob Mynychwr fod:
 - i. yn gorfforol abl i roi cymorth cyntaf i gydweithwyr h.y. yn gallu penlinio ar y llawr i roi dadebriad cardio-bwlmonaidd yn unol â Chod Ymarfer cymeradwy'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
 - ii heb unrhyw gyflwr a allai effeithio ar eu cyfranogiad yn y cwrs a'u gallu i ymgymryd â dyletswyddau swyddog cymorth cyntaf.
 - iii. yn ddibynadwy, gyda'r ymagwedd a'r sgiliau cyfathrebu angenrheidiol
 - iv. â'r gallu i ymdopi â gweithdrefnau brys a fydd yn eu rhoi dan bwysau ac sy'n drwm yn gorfforol.
 - v. yn hawdd dod o hyd iddynt pe bai eu hangen mewn argyfwng ac
 - vi. yn 16 oed neu drosodd - gellir darparu cyrsiau wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer plant o dan 16 oed os cyflwynir cais am hynny i Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



b. Ni fydd Mynychwyr nad ydynt yn gallu diwallu'r gofynion uchod neu sy'n methu â chwrdd â'r meini prawf asesu a bennwyd ar gyfer y Cwrs yn cael tystysgrif ac ni fyddant yn gallu bod yn swyddogion cymorth cyntaf yn y gweithle.

c. Cyfrifoldeb y Cwsmer yw dewis pobl addas i hyfforddi i fod yn swyddogion cymorth cyntaf yn y gweithle. Nid yw Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros gwsmeriaid sy'n cymryd rhan yn y cwrs heb fod yn gorfforol neu'n feddyliol addas i wneud hynny, neu y gallai'r cwrs effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

12. Ail-ardystiad

a. Cyfrifoldeb y Cwsmer yw sicrhau bod y rhai sy'n mynychu cwrs cymorth cyntaf ail-ardystio eisoes wedi ennill tystysgrif cymorth cyntaf yn y gwaith ar ôl dilyn cwrs tri diwrnod. Rhaid dangos copiâu dilys i Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy wrth archebu lle. Bydd methu â gwneud hyn yn golygu na chaniateir mynediad i'r cwrs ac na fydd tystysgrif yn cael ei darparu.

13. Cyfyngiad ar atebolrwydd

a. Heblaw am farwolaeth neu anaf personol a achosir oherwydd esgeuluster Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy, ni fydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn atebol am unrhyw ymholiad (oni bai ei fod yn dwyllodrus) na gwarant nac amod goblygedig nac unrhyw derm arall, nac unrhyw ddyletswydd o dan y gyfraith gyffredin nac o dan y Telerau ac Amodau hyn am golled unrhyw elw neu unrhyw golled arbennig anuniongyrchol neu golledion canlyniadol, costau, treuliau neu hawliadau eraill am iawndal.

b. Ni fydd atebolrwydd hollgynhwysfawr Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy i'r Cwsmer o dan neu mewn cysylltiad a'r Contract a darpariaeth Gwasanaethau yn fwy na swm o ddwywaith y pris a dalodd y Cwsmer am y Gwasanaethau. Ni fwriedir unrhyw beth yn y paragraff hwn i atebolrwydd ar ran Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy rhag unrhyw atebolrwydd am dwyll.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



c. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn cyfrifoldeb am anaf personol, difrod neu golled eiddo sy'n codi o ddefnyddio'r cyfleusterau yn absenoldeb esgeuluster.

14. Diogelu Data

a. Bydd darpariaethau'r cymal 15 hwn yn berthnasol i unrhyw ddatgeliad data personol gan y Cwsmer, yn cynnwys unrhyw ddata personol sensitif fel y mae'r termau yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn eu diffinio.

b. Yn y ffurflen gais am Gwrs bydd y Cwsmer yn rhoi enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost y sawl sy'n archebu'r cwrs a'r Mynychwyr i Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy ynghyd â manylion unrhyw gyflyrau meddygol a allent effeithio ar gyfranogiad Mynychwr ar gwrs.

c. Bydd y data personol y cyfeirir ato yng nghymal 15 (b) yn cael ei ddefnyddio gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy dim ond i ddibenion gweinyddu'r Cwrs.

d. Bydd gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy fesurau technegol a threfniadol yn eu lle yn erbyn prosesu data personol yn ddiawdurdod neu'n anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol i ddata personol a gedwir neu a brosesir ganddo, sy'n briodol i lefel y niwed a allai ddigwydd yn sgil y fath brosesu diawdurdod neu anghyfreithlon, colled, dinistr neu ddifrod i ddata personol a natur y data personol.

e. Bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod staff sydd â mynediad at ddata personol a brosesir mewn perthynas â'r Contract yn ddibynadwy ac wedi'u hyfforddi'n gywir.

f. Ni fydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn trosglwyddo data personol i wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig heb sicrhau bod data o'r fath yn cael ei amddiffyn yn ddigonol fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



g. Bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn rhoi gwybod i'r Cwsmer cyn gynted â phosib ac o leiaf o fewn 1 diwrnod gwaith os bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy'n credu bod unrhyw doriad neu ddatgelu gwybodaeth bersonol yn ddiawdurdod wedi digwydd.

h. Bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn dinistrio/dileu'r holl ddata personol cysylltiedig â'r Contract drwy ddull diogel pan nad oes ar y Gwasanaethau ei angen mwyach.

i. Os bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn datgelu unrhyw ddata i drydydd parti yn unol â chymal 15(b) uchod, bydd Tîm Ffit Conwy yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob corff y datgelir y wybodaeth bersonol iddo yn ei phrosesu dim ond yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddogfennwyd a'u bod yn cynnal mesurau a phrosesau cyfartal, yn cynnwys rhwymedigaethau cyfrinachedd a mesurau diogelwch i gydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

j. Ni fydd manylion cyswllt a roddir i Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn cael eu trosglwyddo i drydydd parti oni bai bod y cwrs a ddarperir wedi'i achredu gan y Gymdeithas Achub Bywydau Frenhinol.

15. Sut i ddarganfod pa wybodaeth bersonol mae Ffit Conwy yn ei dal am Gwsmer.

a. O dan Ddeddf Diogelu Data 2018 gall y Cwsmer ofyn am fanylion am y wybodaeth bersonol sy'n cael ei dal gan Dîm Hyfforddiant Ffit Conwy amdano.

b. Os yw'r Cwsmer yn dymuno cael copi o'r wybodaeth y mae Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn ei ddal amdano, neu os yw'n dymuno diweddarau'r fath wybodaeth, gall y Cwsmer anfon e-bost at:info-gov.unit@conwy.gov.uk neu ffonio 01492 574016.

16. Cwynion

a. Os oes gan y Cwsmer unrhyw gwynion am y gwasanaethau y mae Tîm Ffit Conwy yn eu darparu, dylai'r Cwsmer gysylltu â swyddog gweinyddol Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy dros y ffôn: 01492 575664 neu drwy e-bost: first.aidH&S@conwy.gov.uk

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN



b. Bydd Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy yn ceisio datrys y gwyn cyn gynted a phosibl yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Cwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

17. Cyfreithiau sy'n Rheoli

Bydd y telerau ac amodau ac unrhyw archeb y bydd y Cwsmer yn ei gwneud gyda Thîm Hyfforddiant Ffit Conwy y mae'r telerau a'r amodau hyn yn berthnasol iddynt yn cael eu llywodraethu gan a'u dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN





Ffurflen Ganslo

At:
Tîm Hyfforddiant Ffit Conwy
Coed Pella
BLWCH PO 1
Conwy
LL30 9GN

E-bost: first.aidH&S@conwy.gov.uk

Yr wyf i/rydym ni [*] drwy hyn yn canslo fy/ein [*] contract ar gyfer darpariaeth y cwrs cymorth cyntaf a oedd i'w gynnal o [ddyddiad] tan [dyddiad] yn [cyfeiriad ble byddai'r cwrs wedi'i gynnal*],

Archebwyd ar [*]

Enw'r Cwsmer(iaid).

Cyfeiriad y Cwsmer(iaid)

Llofnod y Cwsmer(iaid) (dim ond os anfonir y ffurflen hon ar bapur).

Dyddiad

Dilëwch fel sy'n briodol

01492 575564



first.aidH&S@conwy.gov.uk
www.ffitconwy.co.uk



Conwy County Borough Council
PO Box 1, Conwy, LL30 9GN

